**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 29 Ionawr, 2018**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 1 Chwefror, 2018. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 8 Chwefror, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 9 Chwefror, 2018.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Carwyn Jones

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorydd R .Llewelyn Jones

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Alun W Mummery

(10:00 y. b. tan 10:45 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2017 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion - Panel Rhiant Corfforaethol**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2017.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Chwefror i Fedi, 2018 yn amodol ar y newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn – Cyfrifon a Diweddariad**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am 2014/15 a 2015/16.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon am 2014/15 a 2015/16.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 STEM Gogledd Cymru**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cefnogi a chymeradwyo partneriaeth Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ym mhrosiect STEM Gogledd Cymru a ariennir drwy'r UE (gyda'r pwrpas o gynyddu cyrhaeddiad pobl ifanc 11-16 oed** |

| | |
|---|---|
| | **ym mhynciau STEM).**<br>• **Bod £150,000 yn cael ei glustnodi fel cyfraniad CSYM (£37,500 y/f dros 4 mlynedd o 2018 i 2022).**<br>• **Mai'r Gwasanaeth Addysg fydd yn gyfrifol am y cyllid, allbynnau ac am y monitro.**<br>• **Bod y Gwasanaeth Addysg yn adrodd yn ôl ar y cynnydd bob tri mis i Ddeilyddion Portffolio Addysg a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd; bob chwe mis i'r Bwrdd Trawsnewid Addysg ac yn flynyddol i Sgriwtini.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Ceisio cymeradwyaeth i alluogi CSYM gymryd rhan a chyfrannu tuag at brosiect STEM Gogledd Cymru.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 A545 Porthaethwy i Fiwmares**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd bod y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn derbyn £95,000 i benodi peiriannwyr ymgynghorol i ddylunio gwelliannau i gryfhau'r A545 rhwng Glyn Garth a Biwmares, a hefyd i gyfrannu tuag at y gost o gryfhau'r llethr islaw Mynwent Biwmares ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Tref Biwmares.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Hwyluso gwaith atgyweirio/cryfhau i'r A545.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Cael Gwared ar y Rovacabin**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd bod £28,000 yn cael ei** |

| | |
|---|---|
| | **ddarparu i gael gwared ar y Rovacabin. Dylai'r cyllid fod ar gael o'r arbediad sydd wedi ei greu gan y broses Drawsnewid, yn benodol Gweithio'n Gallach.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Hyrwyddo cael gwared ar y Rovacabin.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor - Dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai)** Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig a nodir yn Atodiad B yr adroddiad, a chymeradwyo'r fath newidiadau i'r Cyngor Llawn.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn hwyluso menter tai newydd.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS)** Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn boddhau gofynion DoLS.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14 Unedau Diwydiannol**<br>Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Hwyluso adeiladu unedau diwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |